



# Ysgol Cymerau

## Datganiad y Corff Llywodraethol ar Ddisgyblaeth

### Nôd Ysgol Cymerau yw

Creu ysgol hapus lle mae pawb (yn blant ac oedolion) yn gwneud eu gorau bob amser, yn frwdfrydig, yn gofalu am ei gilydd ac yn awyddus i fanteisio ar bob cyfle a phrofiad i ddsygu ac i gyfoethogi eu bywydau.

### Ethos yr Ysgol

1. Creu awyrgylch hapus a gweithgar wedi ei sefydlu ar barch rhwng athrawon a'i gilydd, athrawon a phlant a phlant a'i gilydd, ac a phawb sy'n rhan o'r ysgol, yn ddyddiol neu'n achlysurol.
2. Ceisiwn greu amgylchedd diddorol a symbylus a pherthynas gyfeillgar a diogel rhwng y staff a'r plant.
3. Creu sefyllfa lle y gall pob plentyn ddatblygu ac aeddfedu i ddod yn aelod moesgar, cyfrifol, hyderus o gymdeithas.
4. Darparu cyfle llawn i blant ddatblygu eu doniau, eu talentau a'u diddordebau, i ddod i adnabod eu hunain ac i ddeall rhywbeth am eu gwendidau a'u cryfderau.
5. Creu yn yr ysgol amgylchedd fydd yn symbylu gwerthfawrogiad o'r cain a'r prydferth.
6. Sicrhau bod plant yn cael cyfle cyfartal trwy ddarparu ar eu cyfer gwricwlwm sy'n berthnasol, yn wahaniaethol, yn eang a chytbwys.

**Cefnogwn y syniad o blant yn ymwybodol o'n cred 'dwi ddim yn hoffi dy ymddygiad, ond yn parhau i dy hoffi / gefnogi di'.**

### Côd Moesol yr Ysgol

Bydd yr oedolion sydd yn yr ysgol yn cynnig patrymau ymddygiad sy'n dderbyniol ac yn cydfynd ag amcanion yr ysgol. Bydd y plant yn cael cymryd rhan mewn trafodaethau fydd o gymorth iddynt ddod i wybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg.

### Rheolau Ymddygiad Cadarnhaol ac Adeiladol

1. Disgwylir i'r plant fod yn gwrtais a dangos parch at blant eraill a'r oedolion sydd yn yr ysgol. Byddant yn negydu rheolau gyda'r pennaeth yn flynyddol a caiff y rheolau eu harddangos yn yr ysgol.
2. Annogir y plant i fod yn hunan ddisgybledig a byddwn yn ceisio meithrin hunan barch a hunan hyder ynddynt.
3. Byddant hefyd yn trafod y Cytundeb Cartref Ysgol a'r syniadau sydd ynghlwm ynddo cyn ei arwyddo. Mae un ffurf o'r Cytundeb i blant B1 a B2 a ffurf gwahanol i blant CA2.
4. Byddwn yn ceisio datblygu yn y plant falchder at eu bro a'u gwlad a dealltwriaeth o'r byd y maent yn byw ynddo a pharch tuag ato – yn gyffredinol ac yn arbennig yng nghyd-destun eu bro a'u hamgylchedd, ond heb anghofio gwledydd a chymdeithasau eraill.

### Gwobrau a Chosbau Teg a Chyson

1. Nid yw staff yr ysgol yn credu mewn gwobrwyo ymddygiad da – dyma yw'r 'norm' i fod. Er hyn, byddwn yn creu systemau gwobrwyo achlysurol i blant unigol sydd a phroblemau ymddygiad.
2. Byddwn yn canmol plant sydd yn dangos ymddygiad da ac yn eu defnyddio fel esiampl dda
3. Dylai unrhyw gosb fod yn rhesymol ac yn addas i'r 'drosedd' e.e. plentyn sy'n gas hefo plant eraill ar amser chwarae yn colli amser chwarae, plentyn sy'n gwthio o flaen plant eraill i fod yn olaf a.y.y.b.
4. Os yn bosibl (yn ôl oedran a'r math o ymddygiad), dylid negydu'r gosb gyda'r plentyn neu gyda'r plentyn a'r plant y mae wedi tarfu arnynt.
5. Mae'n bwysig fod y plant yn gwybod fod disgwyl iddynt ymddwyn yn briodol, pa le y mae'r 'llinell', ac y byddant yn cael eu cosbi yn y pen draw os bydd angen.

Mabwysiadwyd: 19-06-14

Adolygir yn flynyddol Adolygwyd: 21-05-15

Arwyddwyd \_\_\_\_\_.

Cadeirydd y Llywodraethwyr